# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin y Graig**

**Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd**
**Llanfair Dyffryn Clwyd**
**Rhuthun**
**LL15 2RU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

20/7/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chylch Meithrin y Graig

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Cylch Meithrin y Graig |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Mewnosod â llaw<br>Dyma'r arolygiad cyntaf ers ailgofrestru. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Mewnosod â llaw<br>Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Gwael** |

Am fwy o wybodaeth ar sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Caiff teimladau, hoffterau, casbethau ac anghenion y plant eu cydnabod gan fod ganddynt ymrwymiadau hoffter da gyda'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Mae rhyngweithiadau rhwng y plant a'r staff yn dda yn gyson ac mae'r plant yn cydweithredu yn dda ac yn ymgysylltu a mynegi diddordeb yn weithredol. Mae gan y plant ryddid i archwilio'r ardal allanol a'u hamgylcheddau dan do yn ddiogel. Maent yn profi cyfleoedd diddorol sy'n briodol o ran oed, sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyflawn, ac sy'n eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain yn hyderus. Mae'r staff yn datblygu eu dealltwriaeth ac yn gweithio tuag at weithredu polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant. Fodd bynnag, mae angen gwella rhai meysydd o fewn gofal a datblygiad. Mae'r staff yn fodelau rôl da ac, ar y cyfan, maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol gyda'r plant, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae'r staff yn darparu ystod briodol o weithgareddau chwarae a dysgu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn saff, yn ddiogel, ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r safle yn groesawgar ac yn hygyrch i bawb. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig ac yn ymroddedig i wella canlyniadau i'r plant; fodd bynnag, mae angen gwella meysydd arwyddocaol yn y modd y caiff y lleoliad ei reoli. Mae'r lleoliad yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Llesiant Da

Mae’r plant yn fywiog ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, maent yn ffurfio cyfeillgarwch, ac maent yn gyfarwydd â threfniadau arferol.

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac yn mynegi eu hunain yn dda. Roedd plentyn yn mwynhau siarad â'i ffrindiau am pan aethon nhw i'r sw a gweld camel ifanc. Siaradodd y plant â ni am y trefniadau amser cinio, gan ddangos i ni pwy oedd yn cael cinio ysgol a phwy oedd yn dod â'u bocsys cinio eu hunain o adref. Gwnaeth plentyn gais i ganu am fwyd glas. Pan gafodd ei holi gan y staff, atebodd y plentyn yn hyderus, gan ddweud, 'Rwyf eisiau canu am y llus glas', a bodlonodd y staff y cais.

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu wrth iddynt gael croeso cynnes gan staff cyfeillgar pan fyddant yn cyrraedd. Maent yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac yn dangos i ni sut maent yn gwneud rhes ar bwys y drws i baratoi i fynd i mewn i neuadd yr ysgol am ginio. Mae'r plant yn mynd at y staff yn rhwydd, i wneud eu ceisiadau ac i baratoi eu hunain yn dda ar gyfer chwarae yn yr awyr agored.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd ac yn dangos caredigrwydd. Er enghraifft, mynegodd plentyn empathi wrth iddo ddweud wrthym ei fod yn dod â'i gi tegan i mewn o'r awyr agored oherwydd ei fod yn oer a rhoddodd y ci tegan mewn cot a'i orchuddio'n ofalus â blanced. Cafodd y plant lawer o hwyl yn cymryd tro wrth wisgo het haul a sbectolau haul o wahanol faint. Helpodd plentyn ei ffrind i osod ei ddarn o bîn-afal ar blât yn ystod amser byrbryd.

Mae'r plant yn datblygu eu chwarae a'u dysgu yn llwyddiannus. Er enghraifft, roedd y plant yn defnyddio siswrn yn ofalus i dorri o gwmpas gwahanol luniau o ddillad haf a gaeaf. Roeddent yn trafod gyda'u ffrindiau pa ddillad oedd yn perthyn i ba dymor. Roedd y plant yn mwynhau edrych drwy'r llyfrau a oedd yn dangos cymeriadau yn mynegi gwahanol deimladau. Maent yn dysgu am emosiynau yn dda ac yn siarad am pam roedd un cymeriad yn hapus, a'r llall yn drist. Roedd y plant yn chwarae'n frwdfrydig ac yn archwilio'r ardal awyr agored. Roeddent yn cydweithio'n effeithiol fel tîm, yn llenwi cynwysyddion o wahanol liwiau â dŵr wrth ddefnyddio'r bibed liw cyfatebol. Maent yn brysur ac yn chwilfrydig wrth iddynt fwynhau peintio bocsys cardbord wedi'u hailgylchu a chael sgwrs gyda'u ffrindiau gan ddefnyddio'r ffôn estynadwy yn y tŷ bach twt pren.

Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn dda. Maent yn arllwys eu dewis o laeth neu ddŵr o jwg yn hyderus. Maent yn cynnal eu gallu i ganolbwyntio'n addas wrth iddynt ymarfer defnyddio eu synhwyrau, gan deimlo gwahanol weadau a lliwiau'r gleiniau dŵr. Roedd y plant yn cymryd rhan yn effeithiol yn ystod amser cylch ac yn mwynhau'r cyfle i fod yng ngofal y gofrestr, gan gofnodi presenoldeb eu ffrindiau. Maent yn dysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain gydag anogaeth gadarnhaol oddi wrth y staff.

## Gofal a Datblygiad **Digonol**

Mae gan y staff agwedd gyfeillgar a gofalgar ac maent yn rheoli rhyngweithio yn gadarnhaol. Maent yn canmol y plant yn gyson am eu hymdrechion ac yn dathlu eu cyflawniadau.

Mae'r staff yn deall y rhan fwyaf o'u rôl a'u cyfrifoldebau i gadw'r plant yn saff ac yn iach. Dywedodd y staff wrthym am y gweithdrefnau diogelu cywir y byddent yn eu dilyn pe bai ganddynt bryderon am blentyn yn eu gofal. Maent yn annog y plant i olchi eu dwylo, ond nid ydynt yn dilyn y canllawiau rheoli heintiau cyfredol i wneud yn siŵr bod y plant yn datblygu eu hylendid personol yn effeithiol. Nid yw'r hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu yn gyfredol ac yn addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n derbyn gofal. Dywedodd y person â gofal wrthym fod y staff a'r plant yn cwblhau ymarferion tân gyda'r ysgol, ond nid oedd pob un o'r rhain wedi'u cofnodi fel tystiolaeth eu bod wedi'u gwneud. Mae'r staff yn hybu ffyrdd iach o fyw ac yn annog y plant i fwyta'n iach a bod yn heini trwy chwarae yn yr awyr iach.

Mae'r staff yn llenwi cofnodion damweiniau a digwyddiadau, ond nid yw'r rhain bob amser yn cael eu cofnodi'n gywir, ac nid yw pob un wedi'i lofnodi gan y rhieni i ddangos eu bod yn cael gwybod. Dywedodd y rhieni wrthym fod cyfathrebu da gyda'r staff, ac maent yn cael eu diweddaru bob dydd am gynnydd eu plentyn.

Mae’r staff yn darparu amgylchedd cartrefol ac yn cofleidio'r plant pan fydd angen i roi cysur a sicrwydd iddynt. Maent yn annog y plant i fod yn gwrtais ac i ddefnyddio cwrteisi.

Mae'r staff wedi dechrau ar gamau cynnar i ddatblygu dull mwy ymatebol o gynllunio gweithgareddau. Maent yn olrhain cynnydd y plant yn briodol ac yn defnyddio'r arsylwadau hyn i gynorthwyo camau nesaf y plentyn yn ei ddysgu a'i ddatblygiad. Mae'r staff yn cydnabod anghenion unigol y plant ac yn rhoi cymorth addas iddynt gynnal llesiant cadarnhaol. Er enghraifft, roeddent yn ymateb yn dda i gais plentyn i fod yn yr awyr agored pan oedd gweithgaredd dan do wedi'i gynllunio. O ganlyniad i ymateb y staff a chefnogaeth dyner, gwelwyd y plentyn yn chwarae’n hapus yn y pwll tywod gydag amrywiaeth o beiriannau cloddio.

Arweiniodd y person â gofal weithgaredd diddorol i estyn gwybodaeth y plant am y byd o'u cwmpas. Anogodd y plant i ddod o hyd i wledydd gwahanol ar y glôb ac roedd y plant yn gyffrous wrth ddod o hyd i Gymru. Defnyddiodd y person â gofal amrywiaeth o bropiau lliwgar ac enghreifftiau o fwydydd i ddangos i'r plant beth mae'r bobl mewn gwahanol wledydd yn ei fwyta a'i ddefnyddio yn eu bywyd o ddydd i ddydd. Arweiniodd drafodaeth fywiog gyda'r plant, gan ddilyn hon gydag amrywiaeth o ganeuon actol hwyliog a fwynhawyd gan bawb.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd saff a glân lle gall y plant chwarae a dysgu'n dda.

Mae asesiadau risg yn nodi'n briodol y peryglon posibl i'r plant a pha fesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn adlewyrchu'r safle a'r gweithgareddau penodol y mae'r plant yn cymryd rhan ynddynt yn llawn. Mae gwybodaeth ar gael i bawb am sut y dylent ymdrin ag argyfyngau. Mae rhai eitemau yn y pecyn cymorth cyntaf wedi dod i ben. Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn dda yn ystod eu gweithgareddau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod cynllun yr ystafell chwarae yn hybu annibyniaeth y plant, gan eu galluogi i archwilio a gwneud eu dewisiadau eu hunain ynghylch yr hyn y maent am chwarae ag ef. Mae ardal benodedig wedi'i neilltuo i'r plant ar gyfer storio'u heitemau personol, ac mae hynny'n creu ymdeimlad o berthyn. Mae ystod eang o deganau ac adnoddau ar gyfer yr oedrannau sy'n derbyn gofal ac mae gan y plant fynediad at ddodrefn o faint sy'n briodol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y storfa o offer dan do yn addas ac yn hygyrch i'r plant. Maent yn codi ymwybyddiaeth y plant o'r byd o'u cwmpas trwy ddarparu ystod o wahanol weithgareddau, arddangosfeydd, doliau ac adnoddau sy'n dangos gwahanol ddiwylliannau ein cymdeithas ehangach ac amrywiol. Mae meysydd dysgu wedi'u trefnu'n dda ac mae detholiad da o adnoddau naturiol ac wedi'u hailgylchu o ansawdd, i ddatblygu sgiliau synhwyraidd, ieithyddol, rhifedd a hunanymwybyddiaeth y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi prynu adnoddau newydd ac wedi datblygu'r ardal chwarae yn yr awyr agored, gan roi mwy o gyfleoedd i'r plant chwarae yn yr awyr iach ym mhob tywydd. Mae datblygiadau pellach i osod canopi pob tywydd ar y gweill, fel y gellir trefnu mwy o weithgareddau awyr agored trwy gydol y flwyddyn. Mae'r ardal awyr agored wedi'i threfnu'n ddeniadol gydag ystod o offer i'r plant ddewis o'u plith a datblygu eu sgiliau corfforol a'u sgiliau echddygol manwl. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael y cyfle i ddysgu am y byd naturiol ac maent wedi trefnu'r ardaloedd hyn yn effeithiol er mwyn i'r plant blannu a thyfu llysiau a blodau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Gwael

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn weithgar ac yn ymrwymedig i wneud gwelliannau i greu canlyniadau gwell i'r plant. Fodd bynnag, mae meysydd sylweddol y mae angen eu datblygu a'u gwella ymhellach i gydymffurfio â'r rheoliadau.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddatganiad o ddiben cyfredol sy'n adlewyrchu'r hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Mae polisïau a gweithdrefnau yn eu lle, ond nid yw'r rhain wedi'u hadolygu na'u diweddaru'n ddiweddar. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi cyflwyno datganiad asesu'r gwasanaeth i AGC ond nid yw wedi rhoi gwybod i ni am unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol yn y lleoliad. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldeb i hyrwyddo'r Gymraeg ac mae'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn cael ei ddarparu.

Mae'r adroddiad sy'n adolygu ansawdd y gofal yn llawn gwybodaeth ond nid yw'n myfyrio ar yr hyn y mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda, yr hyn sydd angen gwelliant, a beth yw'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Nid yw ymatebion a safbwyntiau pawb sy'n defnyddio'r lleoliad wedi'u cynnwys i gynorthwyo cynllunio a gwelliant ar gyfer y dyfodol.

Mae gan yr unigolyn cyfrifol dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ond nid yw wedi sicrhau bod tystysgrifau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yr holl staff yn gyfredol. Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod yr holl wybodaeth sy'n ofynnol wedi'i choladu yn y ffeiliau staff i ddangos bod y staff yn meddu ar gymwysterau, sgiliau a phrofiad addas i ofalu am y plant. Nid yw hyfforddiant y staff mewn cymorth cyntaf pediatrig a diogelu yn gyfredol. Ers ein hymweliad, mae'r person â gofal wedi cadarnhau bod y staff wedi'u cofrestru ar gyfer hyfforddiant priodol. Mae'r person â gofal yn cofnodi presenoldeb y plant yn briodol, ond nid oes system i gofnodi presenoldeb y staff. Ers ein hymweliad, mae'r person â gofal wedi cadarnhau ei bod wedi mynd i'r afael â'r mater hwn. Nid yw trafodaethau o oruchwyliaeth un-i-un gyda'r staff am eu harferion, eu hyfforddiant a'u datblygiad yn cael eu cofnodi. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal arfarniadau bob blwyddyn ac mae'r rhain yn arfaethedig ar hyn o bryd.

Mae'r person â gofal yn ymroddedig i wella'r hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig, a dywedodd wrthym ei bod yn edrych ymlaen at weithio'n agos gyda'r unigolyn cyfrifol a'r staff i helpu i ddatblygu eu harferion. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod ganddynt gefnogaeth yn eu rôl a'u bod yn mwynhau gweithio yn y lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi adeiladu partneriaethau cadarnhaol gyda'r rhieni, yr ysgol a'r gymuned leol. Dywedodd y rhieni y siaradwyd â nhw eu bod yn 'hapus iawn gyda'r lleoliad' a bod eu plant wedi ymgartrefu'n dda. Dywedodd rhiant wrthym ei fod yn falch iawn o weld pa mor gyflym y mae ei blentyn wedi datblygu ei sgiliau Cymraeg, a dywedodd ei fod yn dysgu Cymraeg oddi wrth ei blentyn. Dywedodd rhieni wrthym fod y staff yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt. Mae'r lleoliad wedi gweithio'n agos gyda'r ysgol i helpu'r plant i drosglwyddo i addysg amser llawn trwy ymgyfarwyddo ag amgylchedd, staff a phlant yr ysgol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn annog ymgysylltiad cymunedol, ac o ganlyniad mae'r plant wedi cymryd rhan yn yr eisteddfod a charnifal lleol i helpu i wella eu hymwybyddiaeth a'u sgiliau chymdeithasol.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1: Cynnal ymarferion tân yn fwy rheolaidd a sicrhau cofnod pob ymarfer tân yn fanwl fel y gellir parhau i wneud gwelliannau.

A2: Adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau bob blwyddyn.

A3: Ystyried ffurfioli sesiynau goruchwylio un-i-un a chynnwys adborth penodol i'r staff ar eu harferion, datblygiad a hyfforddiant.

A4: Cynnwys sylwadau a safbwyntiau pawb sy'n defnyddio'r lleoliad, er mwyn gwerthuso ac adolygu ansawdd y gofal, gan nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y mae angen ei wella.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 24 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod gan y staff dystysgrif cymorth cyntaf sy'n addas ac yn gyfredol. Mae angen i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod gan yr holl staff dystysgrif hyfforddiant cymorth cyntaf sy'n addas ac yn gyfredol. | Newydd |
| 25 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod y staff yn dilyn canllawiau rheoli heintiau o ran gweithdrefnau golchi dwylo, ac nid yw wedi sicrhau bod asesiadau risg yn adlewyrchu'n llawn y safle a'r gweithgareddau y mae'r plant yn cymryd rhan ynddynt. Mae angen i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod y staff yn deall ac yn dilyn y canllawiau rheoli heintiau cyfredol yn eu harferion. Mae angen diweddaru asesiadau risg i adlewyrchu'r safle a'r gweithgareddau y mae'r plant yn cymryd rhan ynddynt. Mae angen iddynt nodi'r risgiau hynny a rhoi mesurau effeithiol ar waith i'w | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | rheoli. | |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes / Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 20 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod gan y person â gofal dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae angen i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod y person â gofal yn gwneud cais am wiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | Newydd |
| 30 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod y staff yn cofnodi eu presenoldeb i bennu pa aelodau o staff sy'n gofalu am y plant bob dydd. Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod y staff yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn gywir yn gyson ac yn darparu tystiolaeth bod y rhieni wedi cael gwybod. Mae angen i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod y staff yn cofnodi eu presenoldeb dyddiol ac yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn gywir, gan ddangos bod y rhieni wedi cael gwybod. | Newydd |
| 31 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi hysbysu AGC am ddigwyddiadau arwyddocaol yn ymwneud â'r lleoliad. Mae angen i'r unigolyn cyfrifol gyflwyno'r hysbysiadau perthnasol i AGC drwy ei gyfrif ar-lein. | Newydd |
| 27 | Ni allai'r unigolyn cyfrifol ddangos tystiolaeth bod digon o staff cymwys, medrus a phrofiadol yn gofalu am y plant. Mae angen i'r unigolyn cyfrifol gyflwyno cymwysterau gofal plant a chwarae'r staff i AGC. | Newydd |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy’n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy’n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i’w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni’r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i’w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy’n effeithio’n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyrannu hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 13/09/2022